# Thromboproffylacsis Cymru Gyfan
# Polisi Enghreifftiol

VTE CYMRU WALES
Thromboemboleddau Gwythiennol
Venous Thromboembolism

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

# Polisi Thromboproffylacsis Cymru Gyfan

| | |
|---|---|
| Fersiwn: | 1.0 |
| Dogfennau i'w darllen ochr yn ochr â'r polisi hwn: | Canllaw NG 89 y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Venous thromboembolism in over 16s: reducing the risk of hospital-acquired deep vein thrombosis or pulmonary embolism<br>NICE Venous thromboembolism in adults: Quality standard QS201 |
| Statws: | Wedi'i gadarnhau |
| Perchennog: | Thrombo-emboledd Gwythiennol Cymru, Cronfa Risg Cymru |
| Awduron: | Yr Athro Raza Alikhan, arweinydd clinigol rhaglen Thrombo-emboledd Gwythiennol Cymru, Haematolegydd Ymgynghorol.<br>Christine Welburn, nyrs arweiniol rhaglen Thrombo-emboledd Gwythiennol Cymru, Cynghorydd Diogelwch a Dysgu ar gyfer Cronfa Risg Cymru, Nyrs Gofrestredig (cefndir: Nyrs Arbenigol Thrombo-emboledd Gwythiennol).<br>Sarah Hookes, Pennaeth Cynorthwyol Diogelwch a Dysgu, Cronfa Risg Cymru. |
| Grŵp Adolygu / Cynghori Clinigol | Bwrdd Thrombo-emboledd Gwythiennol Cymru |
| Dyddiad Cwblhau: | 30 Ionawr 2026 |
| Cymeradwywyd gan: | Bwrdd Thrombo-emboledd Gwythiennol Cymru, 4 Chwefror 2026 |
| Cadarnhawyd gan: | Pwyllgor Cronfa Risg Cymru |
| Dyddiad Cadarnhau: | 18 Mawrth 2026 |
| Dyddiad Cyhoeddi: | 1 Ebrill 2026 |
| *Dyddiad Adolygu Nesaf:* | *01/03/2029* |

# Tabl Cynnwys


1. Trosolwg .......... 3
2. Cefndir .......... 5
3. Datganiad Polisi .......... 6
4. Egwyddorion .......... 9
5. Adolygu Polisi .......... 9
6. Dyletswyddau a Chyfrifoldebau .......... 10
7. Addysg .......... 10
8. Safonau Archwilio Cyrff Iechyd Lleol .......... 10
9. Cyfeiriadau .......... 11

# 1. Trosolwg

Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar Ganllaw (NG) 89[1] y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) 2018, Venous thromboembolism in over 16’s: reducing the risk of hospital acquired deep vein thrombosis or pulmonary embolism, ynghyd â Safon Ansawdd QS201[2] NICE 2021: Venous thromboembolism in adults.

Cyhoeddwyd NICE NG89[1] yn 2018 (a chafodd ei ddiweddaru yn Awst 2019), ac mae’n darparu canllawiau clir ynghylch y Safonau Cenedlaethol. Mae'r canllaw yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer offer asesu risg thromboproffylacsis ar gyfer pob grŵp o gleifion. Ers hynny, mae NICE wedi cynnal adolygiadau gwyliadwriaeth ar y canllawiau yn 2022, 2023, a 2024, ac ni wnaed unrhyw welliannau.

Mae thrombo-emboledd gwythiennol a geir o ysbyty (HAT) yn aml yn ataliadwy, ond er hyn mae’n parhau i fod yn achos niwed sylweddol ar draws GIG Cymru. Mae ei atal yn flaenoriaeth graidd o ran diogelwch cleifion i bob Corff Iechyd.

Mae thrombo-emboledd gwythiennol yn un o brif achosion marwolaeth ac anabledd yn y DU[3], a dyma’r achos mwyaf cyffredin o farwolaeth a morbidrwydd[4]. Mae data Cronfa Risg Cymru yn dangos graddfa ac effaith glinigol methiannau system y gellir eu hosgoi. Ers 2022, cyflwynwyd 38 o hawliadau am ad-daliadau a oedd yn gysylltiedig â thrombo-emboledd gwythiennol, cyfanswm o bron i £20 miliwn, gan adlewyrchu cyfleoedd a gollwyd i ddarparu asesiad, diagnosis a phroffylacsis amserol.

Roedd ffactorau cyffredin a gyfrannodd at hyn yn cynnwys diagnosis hwyr neu wedi’i fethu, diffyg archwiliad clinigol, methu â chynnal ymchwiliadau priodol, dim asesiadau risg thrombo-emboledd gwythiennol neu rai anghyflawn, dogfennaeth gyfyngedig, uwchgyfeirio gwael, a gwendidau mewn rheoli meddyginiaethau.

Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu’r angen am arfer cyson o ran atal niwed ac am well ansawdd data, gan gynnwys gwybodaeth gywir, amserol a safonol i sicrhau dealltwriaeth glir o ble mae niwed yn digwydd er mwyn targedu ymdrechion gwella ac i olrhain cynnydd.

Mae'r polisi hwn yn nodi dull cenedlaethol gyson o atal thrombo-emboledd gwythiennol. Mae wedi’i ddylunio i gefnogi clinigwyr i gyflawni eu dyletswydd broffesiynol i leihau niwed, a hynny trwy gryfhau asesu risg, gwella cydnabyddiaeth

a rheolaeth thrombo-emboledd gwythiennol, a thrwy sicrhau system ddibynadwy o adrodd a dysgu ledled Cymru.

## Ar gyfer pwy mae'r polisi hwn?

- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- Pobl sy'n dod i'r ysbyty ac sydd mewn perygl o thrombo-emboledd gwythiennol (VTE). Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty (gan gynnwys o adrannau damweiniau ac achosion brys) gyda dyfeisiau ar eu coesau, e.e. castiau plastr neu frês; pobl sy'n dod i’r ysbyty am driniaeth ddydd gan gynnwys triniaeth canser a llawdriniaethau; a menywod beichiog sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty neu uned dan arweiniad bydwraig, gan gynnwys hyd at 6 wythnos ar ôl rhoi genedigaeth, a'u gofalwyr.

# 2. Cefndir

Mae hyd at 60% o'r holl achosion thrombo-emboledd gwythiennol yn rhai a gafwyd yn yr ysbyty, gan gyfrif am 10% o'r holl farwolaethau yn yr ysbyty. thrombo-emboledd gwythiennol yw prif achos marwolaethau y gellir eu hatal mewn ysbytai[3], a dyma'r prif achos o farwolaeth ymhlith mamau[4]. Gall thrombosis a geir o ysbyty (HAT) gael ei atal os cynigir asesiad risg thrombo-emboledd gwythiennol a thromboproffylacsis priodol i gleifion pan fyddan nhw'n cyrraedd yr ysbyty.

***Thrombosis a Geir o Ysbyty (HAT)***

*Y diffiniad o thrombosis a geir o ysbyty (HAT), a elwir hefyd yn thrombo-emboledd gwythiennol a geir o ysbyty, yw thrombo-emboledd gwythiennol (VTE) sy'n datblygu naill ai yn ystod cyfnod claf yn yr ysbyty neu o fewn 90 diwrnod ar ôl eu rhyddhau o'r ysbyty.*

Yn 2022 a 2025, cynhaliodd Cronfa Risg Cymru adolygiadau cenedlaethol i atal thrombo-emboledd gwythiennol yn GIG Cymru, gan argymell y canlynol:

**Argymhelliad 1:** Pob corff iechyd o fewn GIG Cymru i fabwysiadu Polisi Thromboproffylacsis Cymru Gyfan.

**Argymhelliad 2:** Pob aelod staff clinigol i gwblhau hyfforddiant Cymru gyfan sy'n ymwneud ag adnabod cleifion â symptomau thrombo-emboledd gwythiennol ac atal thrombosis a geir o ysbyty (HAT).

**Argymhelliad 3:** Pob claf i gael asesiad risg thrombo-emboledd gwythiennol wedi'i ddogfennu, gan ddefnyddio Offeryn Asesu Risg yr Adran Iechyd (neu debyg) pan fyddan nhw'n cael eu derbyn i'r ysbyty, yn rhan o glercio cychwynnol y claf.

**Argymhelliad 4:** Datblygu rhestr wirio Cymru gyfan ar gyfer ymchwilio i HAT er mwyn cynnal dull cyson o ymchwilio ar draws GIG Cymru.

**Argymhelliad 5:** Rhannu data cydymffurfiaeth asesiadau risg thrombo-emboledd gwythiennol a'r holl ddata HAT mewn cyfarfodydd llywodraethu cyrff iechyd priodol.

Yn 2024, datblygodd Cronfa Risg Cymru raglen Thrombo-emboledd Gwythiennol Cymru Gyfan o'r enw Thrombo-emboledd Gwythiennol Cymru. Yn 2025, daeth pwyllgor llywio HAT Cymru Gyfan i ben a chytunodd bwrdd rhaglen Thrombo-emboledd Gwythiennol Cymru i ymgorffori cyfrifoldebau Polisi Thromboproffylacsis Cymru Gyfan ac addysg thrombo-emboledd gwythiennol fel rhan o raglen Thrombo-emboledd Gwythiennol Cymru.

# 3. Datganiadau Polisi

**Mae angen asesiad risg thrombo-emboledd gwythiennol ar bob claf 16 oed a hŷn a dderbynnir i ysbytai Cymru, gan ddefnyddio offeryn asesu risg thrombo-emboledd gwythiennol priodol, a rhaid iddo gael ei ddogfennu. Dylai'r asesiad risg ystyried risg yr unigolyn o gael thrombo-emboledd gwythiennol yn ogystal â'u risg o waedu, a hynny er mwyn asesu priodoldeb rhoi thromboproffylacsis.**

1. Bydd tebygolrwydd pob claf sy'n cael ei dderbyn i ysbytai Cymru o ddatblygu thrombo-emboledd gwythiennol yn cael ei asesu pan fyddan nhw'n cael eu derbyn:
   - Gan ddefnyddio offeryn a gyhoeddwyd gan gorff cenedlaethol yn y DU, rhwydwaith proffesiynol, cyfnodolyn a adolygwyd gan gymheiriaid, neu un a gefnogir gan ragnodi a gweinyddu meddyginiaethau electronig (ePMA).
   - Cyfeirio at y driniaeth briodol yn unol â NICE NG89 [1] a rhagnodi proffylacsis ffarmacolegol neu fecanyddol yn ôl yr angen yn unol â'r fformiwlari lleol, ac yn unol â NICE QS201[2].

2. Pan **nad** oes angen thromboproffylacsis, boed gemegol neu fecanyddol, neu pan gaiff ei wrthgymeradwyo, rhaid dogfennu hyn.

3. Dylid ailasesu cleifion meddygol, llawfeddygol a thrawma o ran y risg o thrombo-emboledd gwythiennol a gwaedu pan fydd meddyg ymgynghorol yn cynnal adolygiad neu os bydd eu cyflwr clinigol yn newid. Gweler yr argymhellion yn Assessment of Risk of VTE and bleeding (NICE NG89)[1].

4. Rhaid cofnodi pob achos HAT posibl (Thrombosis Gwythiennau Dwfn [DVT] wedi'i gadarnhau ac Embolism Ysgyfeiniol [PE] wedi'i gadarnhau) ar system Datix Cymru i'w ymchwilio a'i gofnodi fel a ganlyn:
   - HAT wedi'i eithrio
   - HAT wedi'i gadarnhau a'i ddiffinio ymhellach fel a ganlyn:
     - Ataliadwy o Bosibl
     - Ddim yn Ataliadwy

5. Data HAT i'w gasglu drwy system Datix Cymru.

6. Adroddiadau rheolaidd ar Ddata HAT mewn cyfarfodydd llywodraethu lleol.

7. Adroddiadau ar ddata HAT i Fwrdd Thrombo-emboledd Gwythiennol Cymru bob chwarter.

## Diffiniadau ar gyfer canllaw codio Datix Cymru wrth roi adroddiadau am achosion posibl o Thrombosis a Geir o Ysbyty

**Thrombo-emboledd gwythiennol (VTE)**

Mae thrombo-emboledd gwythiennol (VTE) yn derm cyffredinol sy'n cyfeirio at geulad gwaed a ffurfir o fewn gwythïen (system wythiennol) ac mae'n cynnwys thrombosis gwythiennau dwfn (DVT) ac emboledd ysgyfeiniol (PE).

**Thrombosis Gwythiennau Dwfn (DVT)**

Ceuladau gwaed yw’r rhain sy'n ffurfio fel arfer yng ngwythiennau dwfn y coesau, ond gallant ddigwydd mewn unrhyw wythïen ddofn yn y corff.

**Thrombosis gwythiennau dwfn (wedi'i gadarnhau)**

- DVT acíwt yn y coesau sydd wedi'i ddiagnosio trwy archwiliad uwchsain ac wedi'i gadarnhau'n ysgrifenedig ar adroddiad radioleg.
- Dylai pob achos DVT acíwt yn y coesau, yn ogystal ag achosion DVT pan fo cronigrwydd y ceulad yn amhenodol ar adroddiad y sgan, gael ei roi ar Datix i'w ymchwilio ymhellach.

**Emboledd Ysgyfeiniol (PE)**

Mae'r rhan fwyaf o emboleddau yr ysgyfaint yn deillio o geuladau gwaed sy'n ffurfio mewn gwythïen ddofn yn y goes. Gall rhan o'r ceulad dorri i ffwrdd a theithio i'r ysgyfaint.

**Emboledd Ysgyfeiniol (wedi'i gadarnhau)**

- Emboledd Ysgyfeiniol sydd wedi'i ddiagnosio ar sgan CT neu ymchwiliad sgan VQ ac wedi'i gadarnhau'n ysgrifenedig ar adroddiad radioleg.
- Dylai pob Emboledd Ysgyfeiniol acíwt gael ei roi ar Datix ar gyfer ymchwiliad pellach.

**Thrombosis a Geir o Ysbyty (HAT)**

Y diffiniad o thrombosis a geir ysbyty o (HAT), a elwir hefyd yn thrombo-emboledd gwythiennol a geir o ysbyty, yw

- thrombo-emboledd gwythiennol (VTE) sy'n datblygu naill ai yn ystod cyfnod claf yn yr ysbyty neu o fewn 90 diwrnod ar ôl eu rhyddhau o'r ysbyty.

**HAT Ataliadwy o Bosibl**

Derbyn claf i'r ysbyty o fewn 90 diwrnod i ddiagnosis o thrombo-emboledd gwythiennol pan oeddent wedi cael ***thromboproffylacsis is-optimaidd,*** sef:

- Ni ragnodwyd thromboproffylacsis a does dim rheswm wedi'i ddogfennu
- Dos anghywir yn seiliedig ar
  - Pwysau'r corff
  - Gweithrediad yr arennau
- Un neu fwy o ddos(au) wedi'u methu
- Mwy na 14 awr o oedi cyn dechrau thromboproffylacsis ar ôl derbyn i'r ysbyty

❖ Bydd achos HAT ataliadwy o bosibl yn sbarduno proses gwneud iawn .

**HAT na ellir ei osgoi**

Derbyn claf i'r ysbyty o fewn 90 diwrnod i ddiagnosis VTE pan oeddent wedi cael y ***thromboproffylacsis gorau posibl*** .

**HAT wedi'i Eithrio**

- Claf heb gael ei dderbyn i'r ysbyty yn ystod y 90 diwrnod blaenorol
- Claf wedi'i dderbyn i'r ysbyty gyda thrombo-emboledd gwythiennol hysbys/amheuol
- Thrombo-emboledd gwythiennol wedi'i ddiagnosio o fewn 24 awr o'u derbyn

# 4. Egwyddorion

- Mae meddygon ymgynghorol a chlinigwyr perthnasol eu timau, gyda chefnogaeth staff nyrsio a fferyllfa, yn gyfrifol am gynnal asesiad risg thromboproffylacsis ar bob claf pan fyddan nhw'n cael eu derbyn ac am eu hailasesu yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty.
- Rhaid cwblhau dogfennaeth o'r asesiad risg Thrombo-emboledd gwythiennol naill ai yn rhan o'r ddogfennaeth glercio neu ar y system rhagnodi a gweinyddu meddyginiaethau electronig (ePMA).
- Pan fo cleifion yn cael eu derbyn i'r ysbyty neu'n cyflwyno ag anaf i'r coesau, rhaid cynnal asesiad risg thrombo-emboledd gwythiennol ac eglurhad llawn o'r thromboproffylacsis ac arwyddion a symptomau thrombo-emboledd gwythiennol, yn unol â NICE NG89,[1] wedi'i ategu gan daflen wybodaeth briodol i gleifion, fel Thrombosis UK Lowering Your Risk of Blood Clots [5] neu EIDO: Reducing your risk of developing a blood clot (DP01)[6] sydd ar gael ar Venous Thrombo-Embolism - NHS Wales Shared Services Partnership.
- Efallai y bydd gwasanaethau mamolaeth a chanser yn awyddus i ystyried taflenni gwybodaeth i gleifion eraill gan Thrombosis UK sy'n berthnasol i'w harbenigedd.

# 5. Adolygu Polisi

Mae Bwrdd Thrombo-emboledd Gwythiennol Cymru yn gyfrifol am gymeradwyo'r polisi hwn, ac mae Pwyllgor Cronfa Risg Cymru yn gyfrifol am ei gadarnhau bob 3 blynedd, neu'n gynharach os bydd NICE yn cyhoeddi canllaw wedi'i ddiweddaru.

# 6. Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

## Cyfrifoldeb Rheoli Cyffredinol

Mae Cyfarwyddwyr Clinigol / Penaethiaid Nyrsio / Penaethiaid Bydwreigiaeth / Penaethiaid Fferyllfa yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi hwn a'r canllawiau clinigol, y gweithdrefnau a'r asesiadau risg cysylltiedig ar gael i'r staff perthnasol yn eu maes clinigol.

## Cyfrifoldebau'r Clinigwr

Dylai pob aelod o staff clinigol ddilyn canllawiau NICE, Polisi Thromboproffylacsis Cymru Gyfan, a pholisïau a gweithdrefnau eu Corff Iechyd a weithredir yn lleol.

# 7. Addysg

Rhaid i staff sy'n wynebu cleifion gwblhau'r pecyn e-ddysgu thrombo-emboledd gwythiennol sydd ar gael ar y cofnod staff electronig (ESR).

# 8. Safonau Archwilio Cyrff Iechyd Lleol

a) Cydymffurfiaeth Thrombo-emboledd Gwythiennol Cofnod Staff Electronig
b) Cofnodi Achosion HAT Datix Cymru
c) Gwell cydymffurfiaeth ar adolygiadau cwmpasu Cronfa Risg Cymru
d) Llai o broffiliau hawliadau mewn perthynas â thrombo-emboledd gwythiennol
e) Cyflawni a chynnal statws safle thrombo-emboledd gwythiennol enghreifftiol

# 9. Cyfeiriadau

1. Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) 2018. Venous thromboembolism in over 16's: reducing the risk of hospital acquired deep vein thrombosis or pulmonary embolism. Guideline (NG) 89. Overview | Venous thromboembolism in over 16s: reducing the risk of hospital-acquired deep vein thrombosis or pulmonary embolism | Guidance | NICE
2. Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) 2021. Venous thromboembolism in adults: Quality standard QS201. www.nice.org.uk/guidance/qs201
3. Thrombosis UK 2026. Why VTE Matters. https://thrombosisuk.org/thrombosis-for-health-care-professionals/why-vte-matters/
4. Felker A, Patel R, Kotnis R, Kenyon S, Knight M. Saving Lives, Improving Mothers' Care - Lessons learned to inform maternity care from the UK and Ireland Confidential Enquiries into Maternal Deaths and Morbidity 2020–22. Oxford: National Perinatal Epidemiology Unit, University of Oxford; 2024. https://www.npeu.ox.ac.uk/mbrrace-uk/reports/maternal-reports/maternal-report-2020-2022
5. Thrombosis UK 2025. Lowering Your Risk of Blood Clots. A5-LoweringYourRiskofBloodClots-F.pdf
6. EIDO. 2025. Reducing your risk of developing a blood clot (DP01). Venous Thrombo-Embolism - NHS Wales Shared Services Partnership

**Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru**

Welsh.RiskPool@wales.nhs.uk

**Thrombo-emboledd Gwythiennol Cymru**